**Cofnodion Bwrdd TrC**

**15 Chwefror 2024**

09:30 – 16:00

Lleoliad – Canolfan Reoli Integredig, Ffynnon Taf

---

**Yn bresennol**
Scott Waddington (Cadeirydd), Heather Clash, Nicola Kemmery, Alison Noon-Jones, Sarah Howells, Vernon Everitt, Alun Bowen, a James Price.

Hefyd yn bresennol: Gareth Evans, Jeremy Morgan, Dean Katchi (eitem 2), Josh Hopkins (eitem 5.1), Zoe Smith-Doe (eitem 5.2), Dan Tipper (eitem 5.3), Marie Daly a Lewis Brencher (eitem 5.4).

**Rhan A – Cyfarfod y Bwrdd Llawn**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Ymddiheuriad gan Alan McCarthy (Unite).

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**
Dim.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**
Derbyniwyd bod cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 18 Ionawr 2024 yn gofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu.

**1e. Sylw i Ddiogelwch**
Mae Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau yn cael ei chynnal yr wythnos nesaf. Hysbyswyd y Bwrdd bod ystadegau'n dangos bod gweithwyr yn fwy tebygol o gael damweiniau yn ystod y chwe mis cyntaf yn eu swydd. Felly, mae'n hanfodol bod gweithwyr yn dod i ddeall y gweithdrefnau a phrosesau iechyd a diogelwch yn ystod y cyfnod hwn.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**
Trafododd y Bwrdd ddigwyddiad diweddar lle cafodd cwsmer ei daro'n wael. Trafodwyd hefyd sut wnaeth y staff ar y trên ddelio â'r sefyllfa, a'r gwersi y gellir eu cymhwyso i TrC.

**2. Iechyd, Diogelwch a Chadernid**
*Ymunodd Dean Katchi â'r cyfarfod.*

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o'r adroddiad Iechyd, Diogelwch a Chadernid a oedd wedi'i gynnwys yn y pecyn. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Adroddiad Asesu DSEAR wedi dod i law, a chynhaliwyd adolygiad gyda'r aseswyr a thîm y prosiect i ddeall y camau gweithredu.
- Perfformiad diogelwch yn ddigonol, ond mae tuedd barhaus o weld cyfanswm mwy na'r disgwyl o ddigwyddiadau'n ymwneud â'r gweithlu – er bod tuedd iddynt fod yn llai niweidiol.
- Yr arweinyddiaeth iechyd a diogelwch sy'n fwyfwy rhagweithiol, ac ymyriadau cadarnhaol yn Pullman Rail.
- Adolygiad sicrwydd o raglen Mynwent y Crynwyr a phroblem ddiweddar yn ymwneud â goleuadau, gan gynnwys mesurau lliniaru posibl.
- Yr angen i gynnwys gwasanaethau brys yn y gwaith o gynllunio depos, a chydleoli gwasanaethau brys yn yr ystafell reoli yn ystod digwyddiadau mawr.
- Cyfarfod mewnol diweddar ynghylch Bwrdd Rheilffyrdd TrC yn uwchgyfeirio anafiadau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithlu, ac ymgyrch gyfathrebu ar gyfer ymddygiad gwell gan gwsmeriaid ar sail y gwersi a ddysgwyd o ymgyrch Cyfarpar Llinellau Uwchben.

*Gadawodd Dean Katchi y cyfarfod.*

**4. Diweddariad Strategol / Datblygu**
**4.1 – Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Bu'r Bwrdd yn trafod cynnwys adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol. Roedd y trosolwg yn cynnwys diweddariadau ar y canlynol:

- Y ffocws parhaus ar esblygiad TrC 2.0, gydag ymgysylltu da ar draws y sefydliad a gyda Llywodraeth Cymru. Roedd araith a sesiwn ddilynol y Dirprwy Weinidog, a gynhaliwyd yn ystod galwadau Trafodaethau Cwmni Cyfan diweddar, wedi cael eu croesawu gan gannoedd o bobl a oedd yn bresennol ar-lein ac yn Llys Cadwyn.
- Mae perfformiad y rheilffyrdd yn parhau i wella – gyda pherfformiad arbennig o galonogol ar y llwybr rhwng Wrecsam a Bidston. Nododd y Bwrdd y pwysigrwydd o neilltuo amser penodol i reoli'r llwybr. Hysbyswyd y Bwrdd bod targedau perfformiad yn cael eu hadolygu ar draws y rhwydwaith. Fodd bynnag, mae argaeledd unedau yn dal yn broblem – yn bennaf, oherwydd prinder yr unedau Class 197. Nododd y Bwrdd fod y Prif Weithredwr yn derbyn adroddiadau diweddaru dyddiol ar achosion o oedi a pherfformiad yn erbyn targedau. Nodwyd y bydd y Bwrdd Perfformiad Gweithredol, un o is-bwyllgorau Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf, yn cyfarfod am y tro cyntaf yfory. I ddechrau, bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar argaeledd unedau cyn symud ymlaen i ystyried set ehangach o broblemau.
- Mae argaeledd unedau MKIV yn dal i fod yn wael. Cytunwyd y bydd sesiwn fanwl yn cael ei chynnal yn ystod y cyfarfod nesaf **[Cam gweithredu Jan Chaudhry Van der Velde]**.

- Gofynnodd y Bwrdd am grynodeb o’r newidiadau y gall teithwyr ddisgwyl eu gweld o ganlyniad i’r rhaglen barhaus i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd **[Cam gweithredu James Price]**.
- Croesawodd y Bwrdd y newyddion y byddai rheilffordd Treherbert yn debygol o ailagor yn ystod yr wythnosau nesaf, yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol. Cytunodd y Bwrdd i ysgrifennu at y Swyddfa Rheoleiddio’r Rheilffyrdd i ddiolch iddynt am eu hymgysylltiad a’u cydweithrediad **[Cam gweithredu Dan Tipper]**.
- Mae cynnydd da wedi cael ei wneud ar fysiau, gan gynnwys y gwaith o gynnal sawl archwiliad manwl ar draws gwahanol agweddau ar y rhaglen. [redacted] Gofynnodd y Bwrdd am yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau sy’n ymateb i’r galw **[Cam gweithredu Lee Robinson]**.
- [redacted]

Hefyd, cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Llinellau Craidd y Cymoedd; mae’r sefyllfa bresennol ar Gamlas Suez yn effeithio ar chwyddiant ac oedi o ran deunyddiau; prosiectau Caerdydd Canolog; ymateb i’r adolygiad diwylliannol diweddar yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru; a gwariant Teithio Llesol.

### 4.2. Cyllid (Cyfrifon Rheoli)

Derbyniodd a nododd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y canlyniadau ariannol ar gyfer mis Ionawr 2023/24. Roedd yr wybodaeth hon yn ymwneud â chymhorthdal i TrC ac adolygiad o’r flwyddyn gyfan a oedd yn adlewyrchu’r cynllun busnes presennol ar gyfer cyllideb 2023/24, fel y’i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

[redacted]

Mae’r gwaith o ddatblygu amserlen cyllideb 2025/26 yn mynd rhagddo, ac mae’r gwersi a ddysgwyd o'r fersiwn diwethaf yn cael eu rhoi ar waith.

## <u>Rhan B – Sesiwn Diweddariad Gweithredol</u>

### 5. Diweddariadau Gweithredol

### 5.1 Cofrestr risg strategol

*Ymunodd Josh Hopkins â’r cyfarfod.*

Nododd y Bwrdd fod archwiliad o’r swyddogaeth rheoli risg ar gyfer rhaglen Llinellau Craidd y Cymoedd wedi ei gynnal er mwyn adolygu’r trefniadau rheoli risg presennol sydd ar waith. Mae’r Tîm Archwilio Mewnol wrthi’n paratoi adroddiad i gofnodi canfyddiadau ac argymhellion.

Yn dilyn adolygiad, mae proses o reoli risg ar y rheilffyrdd wedi’i diweddaru i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â’r model tair llinell amddiffyn. Cyflwynwyd y broses i’r Grŵp Llywio Cyflawni Rheilffyrdd ddiwedd mis Ionawr, ac fe’i cyflwynwyd i Fwrdd Rheilffyrdd TrC ddechrau mis Chwefror.

Nododd y Bwrdd nad oes unrhyw risgiau newydd a bod pedwar risg wedi eu lleihau. Nodwyd prif risgiau Horizon hefyd.
*Gadawodd Josh Hopkins y cyfarfod.*

**5.2 Cynllun Busnes 2024/25**
*Ymunodd Zoe Smith-Doe â'r cyfarfod*
Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn perthynas â chytuno ar yr Adroddiad Blynyddol 2024/25, a'i gyhoeddi. Yn amodol ar ambell i fân awgrym golygyddol, cymeradwywyd y cynllun i'w rannu â Llywodraeth. Nododd y Bwrdd y rhybudd y bydd rhai o'r elfennau i'w cyflawni yn amrywio os bydd unrhyw newidiadau ariannol.

Cadarnhawyd na fyddai llythyr cylch gwaith newydd ar gyfer 2024/25, ond mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi llythyr ariannu.

*Gadawodd Zoe Smith-Doe y cyfarfod.*

**5.3 CVL**
*Ymunodd Dan Tipper â'r cyfarfod.*
Mae cynnydd da wedi cael ei wneud ar ddepo Ffynnon Taf ers y cyfarfod diwethaf, gyda'r prif waith yn parhau o amgylch y porthdy a'r maes parcio. Bydd gyrwyr yn gweithio o'r depo o fis Medi ymlaen. Nododd y Bwrdd y cynnydd a wnaed yn dilyn ei ymweliad yn ystod y bore.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gymeradwyo Gorsaf Treherbert; Cyfnewidfa Porth sydd bron â chael ei chwblhau a'i throsglwyddo i'r awdurdod lleol; a'r cynnydd o ran y Cyfarpar Llinellau Uwchben.

Croesawodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf, y cynnydd a wnaed, a'r hyder a gafwyd wrth gwblhau gweddill y rhaglen; er gwaethaf y ffaith bod angen goresgyn heriau a meysydd cymhleth allweddol o hyd, gan gynnwys signalau.

*Gadawodd Dan Tipper y cyfarfod*

**5.4 Diweddariad brand**
*Ymunodd Marie Daly a Lewis Brencher y cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad brand, gan gynnwys gweledigaeth, cenhadaeth, pwrpas a gwerthoedd newydd arfaethedig TrC. Nododd a chroesawodd y Bwrdd y cynnydd a wnaed yn y cynlluniau ar gyfer esblygu'r 'brand T', yng nghyd-destun y ffaith bod ymwybyddiaeth o'r brand wedi cynyddu 40% dros y pum mlynedd diwethaf. Cytunwyd bod rhai o'r newidiadau a awgrymwyd yn galw am ragor o waith trafod, datblygu a phrofi, yn enwedig yr awgrymiadau ynghylch bysiau.

**5.5. Is-bwyllgorau'r Bwrdd**
***TrC 2.0.*** Yn ddiweddar, cyfarfu'r pwyllgor i adolygu Cylch Gorchwyl drafft y pwyllgor. Cytunodd y Bwrdd â chynnig y pwyllgor y dylai cwmpas y pwyllgor ganolbwyntio ar y newid diwylliannol a'r cynllun datblygu pobl sydd ei angen i sicrhau bod y cylch gwaith a bennwyd gan y Dirprwy Weinidog yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus – yn hytrach na chanolbwyntio ar gynllunio rhwydwaith a materion mwy gweithredol.

Bu’r pwyllgor yn trafod aelodaeth a risg y pwyllgor hefyd. Cytunodd y Bwrdd, gan ei bod yn debygol y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng yr is-bwyllgorau, y dylai’r pwyllgor fabwysiadu aelodaeth hyblyg ac y dylai holl aelodau’r bwrdd gael yr opsiwn i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd **[Cam gweithredu Jeremy Morgan]**.

***Pwyllgor Prosiectau Mawr.*** Bu'r cyfarfod diweddar yn adolygu’r Swyddfa Rheoli Prosiect; Crossrail Caerdydd; bysiau; Llinellau Craidd y Cymoedd; ac adnewyddu seilwaith.

***Pwyllgor Pobl*.** Roedd cyfarfod diweddar y pwyllgor yn canolbwyntio ar ganlyniadau diweddar yr arolwg / archwiliad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; dangosfwrdd, lifrai; alinio gwobrau; model gweithredu integredig ar gyfer bysiau; cynllunio’r gweithlu; ac ymgysylltu â’r gymuned.

**5.6 Is-fyrddau’r cwmni**

Yn ystod cyfarfod diweddar y **Bwrdd Rheilffyrdd**, cafwyd trafodaethau ynghylch perfformiad, diogelwch, is-bwyllgor OPB, unedau MKIV, cyllid, cyflwr terfynol y fflyd ar rwydwaith Trawsffiniol Cymru, a strategaeth cerbydau.

5.7 **Bwrdd Llywio**

Roedd cyfarfod diwethaf y Bwrdd Llywio yn canolbwyntio ar berfformiad, Dangosyddion Perfformiad Allweddol, cyllid a chyllidebau.

**5.8 Panel cynghori**

Yn ystod cyfarfod diweddar y Panel Cynghori, cafodd yr aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y rheilffyrdd, newidiadau i amserlenni, cerbydau, teithio llesol a masnachfreinio bysiau. Hefyd, cafodd yr aelodau eu briffio ar fecanwaith adrodd newydd TrC ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol.

**Gan nad oedd unrhyw fater pellach, diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.**